Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 275 – 25 Chwefror 2005
Gwesty Neuadd Rossett, Wrecsam

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod busnes yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2005.

Cyngerdd y Tsunami

Yn dilyn nifer o gwynion yn enwedig ar y ddwy awr gyntaf o'r darllediad paratowyd crynodeb ar gyfer yr Awdurdod. Nododd yr Awdurdod rhai o'r problemau a godwyd yn olygyddol a gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Rhaglenni drafod ymhellach gyda'r BBC.

Gweithgareddau Masnachol

Nodwyd bod cytundeb wedi ei gytuno gyda Greenfield Media i ddarparu gwasanaethau ar werthiant hysbysebu, SDN a materion digidol.

Gwerthiant Rhaglenni a Chyd-gynhyrchu

Trafodwyd drafft o'r tendr a chytunwyd i gyhoeddi'r tendr yn ystod y misoedd nesaf.

Ofcom 3

Nodwyd bod Ofcom 3 wedi'i gyhoeddi gydag ymgynghoriad ar y 3 opsiwn ar gyfer dyfodol S4C. Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth a chytunwyd ar y prif benawdau ar gyfer yr ymateb.

Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2004

Ystyriwyd yr adroddiad monitro ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2004. Ar yr amod bod y sylwadau pellach a wnaethpwyd yn y cyfarfod yn cael eu hymgorffori rhoddodd yr Awdurdod eu sêl bendith ar yr adroddiad monitro gan gytuno y byddai copi terfynol yn dilyn ar ôl yr archwiliad.

Materion eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Nawdd yr Awdurdod 2005
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 11 Chwefror 2005

- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Cynllun Cyfathrebu Cyhoeddus